# **Cyfranwyr creadigol:**
# Pryfed peillio a barddoniaeth

Ymlaen â chi! Mae'r gyfres hynod yma o adnoddau yn rhoi'r cyfle i chi loywi gweithgareddau blinedig gyda blitz tymhorol! Felly, yn ysbryd y gwanwyn, beth am fynd â'ch dysgwyr uchelgeisiol, galluog allan am ymarfer ar onglau a chyfesurynnau, neu efallai gael eich cyfranwyr creadigol i chwarae gyda barddoniaeth mewn ffordd gwbl newydd?



Credit: White-tailed bumblebee – Penny Frith

Mae'r pecyn adnoddau hwn wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of People's Postcode Lottery

Awarded funds from Postcode Planet Trust

## **Cyfranwyr creadigol:** pryfed peillio a barddoniaeth

I ddefnyddio'r adnodd hwn, bydd arnoch angen:

- Y ddogfen hon – mae crynodeb byr isod, gyda’r prif adnoddau a dolenni ar y tudalennau canlynol.

Ymlaen â chi! Mae'r gyfres hynod yma o adnoddau yn rhoi'r cyfle i chi loywi gweithgareddau blinedig gyda blitz tymhorol! Felly, yn ysbryd y gwanwyn, beth am fynd â’ch dysgwyr uchelgeisiol, galluog allan am ymarfer ar onglau a chyfesurynnau, neu efallai gael eich cyfranwyr creadigol i chwarae gyda barddoniaeth mewn ffordd gwbl newydd?

### Cam 1: Onglau blaen oren: mae pryf peillio’n cydlynu’r gweithgaredd

Mae'r gweithgaredd yma sy'n seiliedig ar gyfesurynnau wedi'i gynllunio i gynyddu hyder myfyrwyr wrth fesur a mynegi onglau / cyfesurynnau. Bydd y myfyrwyr yn plotio llwybr ar gyfer y pryf peillio drwy’r ddôl o flodau gwyllt – gellir gwahaniaethu yn y fan hyn i fod yn haws drwy ddarparu llwybr wedi’i fapio i’r myfyrwyr – a bydd yn gorffen gyda gweithgaredd awyr agored, gan greu cynrychiolaeth real o’u mapiau!

### Cam 2: Ailwylltio eich geiriau: cerddi ‘concrid’ ar thema anifeiliaid

Mae’r tasgau gwahaniaethol yma’n berffaith i gefnogi a herio pob gallu i arbrofi gyda geirfa a delweddaeth – gall pob aelod o’ch grŵp deimlo fel bardd! Does dim byd yn gwneud disgybl yn falchach na chynhyrchu gwaith i’w arddangos, ac mae’r ffaith bod y rhain yn dathlu ein bywyd gwyllt ni’n cynnig bonws gwych.

Fel erioed, os bydd eich disgyblion yn creu, yn ysgrifennu neu’n gwneud unrhyw beth maen nhw’n wirioneddol falch ohono, anfonwch lun at chris.baker@northwaleswildlifetrust.org.uk – efallai y bydd yn ymddangos ar ein gwefan ni neu ein cyfryngau cymdeithasol!

Mae’r pecyn adnoddau hwn wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru North Wales Wildlife Trust

Supported by players of PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY

Awarded funds from POSTCODE PLANET TRUST

**Cam 1: Onglau blaen oren**

Gweithgaredd sy’n cael ei gydlynu gan bryf peillio

Cyflwyniad: Mae'r gweithgaredd yma sy'n seiliedig ar gyfesurynnau wedi'i gynllunio i gynyddu hyder myfyrwyr wrth fesur a mynegi onglau / cyfesurynnau.

Bydd y myfyrwyr yn plotio llwybr ar gyfer y pryf peillio drwy’r ddôl o flodau gwyllt – gellir gwahaniaethu yn y fan hyn i fod yn haws drwy ddarparu llwybr wedi’i fapio i’r myfyrwyr

Unwaith y bydd eu llwybr wedi'i lunio byddant yn llenwi'r tabl a ddarperir i ddarparu cyfres glir o gyfarwyddiadau, gan ddefnyddio pellteroedd a chyfesurynnau.

Mae cyfres o weithgareddau her gwahaniaethol, gydag anhawster cynyddol.

Rydyn ni hefyd wedi darparu gweithgaredd dosbarth cyfan, ar wahân y tu allan, gan greu cynrychioliaeth real o’r mapiau. Gall y myfyrwyr fod mor greadigol ag y dymunwch chi gyda’u cynrychiolaeth o’r ddôl a gallent wneud y blodau a’r glöynnod byw fel delweddau 2D neu 3D, neu ddim ond defnyddio sialc os yw amser yn brin!

Nodau:
- Cyflwyno / ailymgyfarwyddo myfyrwyr â phwysigrwydd pryfed peillio a'r berthynas rhwng pryfed peillio a phlanhigion sy’n blodeuo
- Plotio / tynnu llinellau rhwng pwyntiau (arfer ardderchog ar gyfer sgiliau graff llinell)
- Mesur pellteroedd i'r centimetrau neu'r milimetrau agosaf
- Mesur onglau a'u cyflwyno fel cyfeiriannau
- Cyfrifo pellteroedd mewn bywyd real o bellteroedd ar fap, gan ddefnyddio graddfeydd
- Defnyddio cyfres o gyfarwyddiadau i blotio llwybr (arfer ardderchog ar gyfer sgiliau llywio a map)

Adnoddau:
- Pren mesur gyda mm
- Onglyddion (180° neu 360°)
- Taflen waith 1 (edrychwch dros y dudalen – grid llwybr y ddôl flodau – dewiswch y llwybr sydd wedi’i lunio ymlaen llaw ar gyfer gwahaniaethu is)
- Taflen waith 2 (edrychwch dros y dudalen – tabl i'w lenwi)
- Gweithgareddau her (edrychwch dros y dudalen)
- Cyfarwyddiadau Her Dosbarth (edrychwch dros y dudalen)

Cyfarwyddiadau:
1: Gan ddefnyddio pren mesur a phensil miniog, tynnwch lun rhwng 6 a 10 llinell syth, gan ddechrau wrth y glöyn byw, a mynd o flodyn i flodyn. Rhifwch y blodau o 1 i 10 wrth i chi dynnu'r llinellau.

2: Ar gyfer y llinell gyntaf y gwnaethoch ei thynnu, mesurwch yr hyd yn ofalus, mewn cm (centimetrau), o'r glöyn byw i flodyn 1 – defnyddiwch leoedd degol os gallwch chi. Ysgrifennwch hwn yn llinell gyntaf eich tabl.

3: Mesurwch yr ongl, o Ogledd (yn syth i fyny) y llinell gyntaf (glöyn byw i flodyn 1). Ysgrifennwch yr ongl hon yn llinell gyntaf eich tabl.

Mae’r pecyn adnoddau hwn wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY

Awarded funds from POSTCODE PLANET TRUST

4: Cwblhewch gamau 2 a 3 (mesur hyd y llinell ac ongl y llinell o'r Gogledd) ar gyfer gweddill eich llinellau (e.e. o flodyn 1 i flodyn 2 ac ati). Cofnodwch y rhifau hyn yn llinellau nesaf y tabl.

Nawr mae gennych chi gyfres glir o gyfarwyddiadau i ddangos llwybr y glöyn byw drwy'r ddôl flodau.

**Nodiadau pellach**

Pryfed Peillio

- Mae glöynnod byw yn enghreifftiau o bryfed peillio
- Mae pryfed peillio yn mynd â phaill o flodyn un planhigyn i flodyn planhigyn arall (o'r un rhywogaeth).
- Mae hyn yn galluogi'r planhigyn i gynhyrchu hadau - heb hynny ni fyddai unrhyw blanhigion newydd.
- Ond!! Nid yw'r glöynnod byw yn gwneud hyn am ddim! Mae angen llawer o egni i hedfan - mae'r glöynnod byw yn casglu neithdar blasus o'r blodau wrth fynd yn eu blaen.
- Mae neithdar yn hylif llawn siwgr sy'n gallu blasu'n union fel mêl!
- Yn y gweithgaredd yma byddwch yn edrych ar y llwybr y byddai glöyn byw yn ei gymryd drwy ddôl o flodau gwyllt.
- Ydych chi'n adnabod unrhyw anifeiliaid eraill sy'n gweithredu fel pryfed peillio?

Opsiynau ar gyfer mesur onglau

- Mae'r gweithgaredd wedi'i osod fel bod pob ongl yn cael ei fesur o'r Gogledd (0 °)
- Yn dibynnu ar eich amcanion a'ch offer, gellir mesur onglau fel cyfeiriannau o 0-360° (mae angen onglydd cylchol llawn) neu 0-180°, clocwedd neu wrthglocwedd o'r Gogledd.

Mae'r pecyn adnoddau hwn wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl


Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of People's Postcode Lottery

Awarded funds from Postcode Planet Trust

**Taflen Waith 1**

Fersiwn 1: tynnwch lun eich llwybr eich hun



Mae’r pecyn adnoddau hwn wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl


Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of People's Postcode Lottery

Awarded funds from Postcode Planet Trust

**Taflen Waith 1**

Fersiwn 2: llwybr wedi'i lunio eisoes




Mae'r pecyn adnoddau hwn wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY

Awarded funds from POSTCODE PLANET TRUST

**Taflen Waith 2**

Llenwch y tabl i ddangos llwybr y glöyn byw!

| **Llwybr y glöyn byw** | **Hyd (cm)** | **Ongl o'r gogledd (°)** | **Gwrthglocwedd neu glocwedd?** | **Llem neu aflem?** |
|---|---|---|---|---|
| Dechrau i flodyn 1 | | | | |
| Blodyn 1 → blodyn 2 | | | | |
| Blodyn 2 → blodyn 3 | | | | |
| Blodyn 3 → blodyn 4 | | | | |
| Blodyn 4 → blodyn 5 | | | | |
| Blodyn 5 → blodyn 6 | | | | |
| Blodyn 6 → blodyn 7 | | | | |
| Blodyn 7 → blodyn 8 | | | | |
| Blodyn 8 → blodyn 9 | | | | |
| Blodyn 9 → blodyn 10 | | | | |

Mae'r pecyn adnoddau hwn wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY

Awarded funds from POSTCODE PLANET TRUST

## Gweithgareddau Her

### Her 1

Darganfyddwch gyfanswm y pellter a deithiwyd gan y glöyn byw i gasglu ei neithdar, mewn centimetrau.

Gofod i gyfrif:
*Awgrym: adiwch yr holl rifau yng ngholofn "hyd" eich tabl*

Cyfanswm y pellter a deithiwyd = ________________cm

### Her 2

Mae pob 1 cm ar eich papur yn hafal i 4 metr yn y ddôl blodau gwyllt. Darganfyddwch gyfanswm y pellter y teithiodd y glöyn byw ar y ddôl.

Gofod i gyfrif:
*Awgrym: lluoswch eich ateb i her 1 gyda 4*

Cyfanswm y pellter a deithiwyd = ________________m

### Her 3:

Newidiwch eich tabl gyda phartner. Cofiwch mai'r tabl yw'r cyfarwyddiadau ar gyfer y llwybr y teithiodd y glöyn byw.

Defnyddiwch dabl eich partner i lunio llwybr ei löyn byw drwy'r ddôl.

Peidiwch ag edrych ar fap eich partner tan y diwedd – wedyn defnyddiwch ef i wirio a yw'r patrwm a luniwyd gennych chi yr un fath â'i batrwm ef. Os nad yw, allwch chi weld ble aethoch chi o chwith?

Os byddwch chi'n gorffen hwn, beth am liwio'r blodau mewn lliwiau llachar i ddenu glöynnod byw eraill!

---

Mae'r pecyn adnoddau hwn wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

**Her Dosbarth**

Ar yr iard rydych chi'n mynd i fapio llwybr y glöyn byw!

Bydd arnoch angen:

- Tâp mesur hir / pren mesur metr
- "Blodau" – gall y rhain fod yn ddarnau o bapur lliw, neu fe allech chi i gyd dynnu llun blodyn maint A4
- "Glöyn byw" – defnyddiwch eich dychymyg am rywbeth i gynrychioli'r glöyn byw
- Sialc i dynnu llun ar y ddaear
- Onglyddion
- Tabl cyfarwyddiadau wedi'i lenwi (naill ai wedi'i gwblhau gan fyfyriwr, neu'r enghraifft dros y dudalen)

Cyfarwyddiadau:

- Defnyddiwch y tabl ar gyfer eich llwybr
- Marciwch fan cychwyn y glöyn byw ar y ddaear gyda sialc
- Defnyddiwch yr onglydd a'r pren mesur metr / tâp mesur i fesur yr ongl a'r pellter i flodyn 1 (gan ddefnyddio'r wybodaeth o'r tabl)
- Cofiwch, 1 cm = 4 metr (sylwer: gellir newid y raddfa hon i ffitio'r gofod sydd ar gael)
- Marciwch flodyn 1 gyda sialc. Gosodwch un o'r blodau rydych chi wedi'i wneud ar y pwynt hwn (efallai y bydd rhaid i chi roi pwysau arno i'w atal rhag chwythu i ffwrdd)
- Ailadroddwch hyn ar gyfer yr holl flodau

Llongyfarchiadau – rydych chi wedi mapio llwybr y glöyn byw!

Mae'r pecyn adnoddau hwn wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY

Awarded funds from POSTCODE PLANET TRUST

**Her Dosbarth**
Tabl enghreifftiol

| **Llwybr y glöyn byw** | **Hyd (cm)** | **Ongl o'r gogledd (°)** | **Gwrthglocwedd neu glocwedd?** |
|---|---|---|---|
| Dechrau i flodyn 1 | 6.5 | 78 | clocwedd |
| Blodyn 1 → blodyn 2 | 7.0 | 50 | gwrthglocwedd |
| Blodyn 2 →blodyn 3 | 3.4 | 56 | clocwedd |
| Blodyn 3 →blodyn 4 | 3.8 | 120 | clocwedd |
| Blodyn 4 →blodyn 5 | 3.4 | 0 | clocwedd |
| Blodyn 5 →blodyn 6 | 6.4 | 128 | clocwedd |
| Blodyn 6 →blodyn 7 | 3.8 | 155 | gwrthglocwedd |
| Blodyn 7 →blodyn 8 | 3.8 | 107 | clocwedd |
| Blodyn 8 →blodyn 9 | 6.6 | 36 | clocwedd |
| Blodyn 9 → blodyn 10 | 4.3 | 51 | gwrthglocwedd |

Mae'r pecyn adnoddau hwn wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY

Awarded funds from POSTCODE PLANET TRUST

## Cam 2: Ailwylltio eich geiriau

Cerddi ‘concrid’ ar thema anifeiliaid

**Gweithgaredd 1**

Rydyn ni wedi darparu tri gweithgaredd gwahanol i gael y myfyrwyr i feddwl am arbrofi gyda geirfa a delweddaeth – gall pob aelod o’ch grŵp deimlo fel bardd!

Adnoddau:

- Banciau geiriau – edrychwch dros y dudalen; gan nodi bod gwahanol fanciau geiriau yn mynd gyda gwahanol weithgareddau
- Enghreifftiau o gerddi anifeiliaid – edrychwch dros y dudalen
- Siswrn
- Creonau pensil / sialc / pinnau ffelt lliw

**Gweithgaredd 1**

*Yn y ddau grid geirfa yma, mae'r anifeiliaid maen nhw'n ymwneud â nhw ychydig yn amwys.*

Cyfarwyddiadau:

1: Allwch chi adnabod anifail ar gyfer pob grid, gan ddefnyddio o leiaf dri gair fel tystiolaeth?

2: Yn seiliedig ar yr eirfa a ddarparwyd, beth yw ymddygiad yr anifail? Ydi hynny'n arferol neu'n annodweddiadol ar gyfer y rhywogaeth? Allwch chi awgrymu sefyllfa neu reswm dros yr ymddygiad hwn?

3: Dewiswch un grid ac edrychwch yn ofalus. Allwch chi gynnig awgrym gwreiddiol arall am rywogaeth yr anifail neu’r ymddygiad sy’n cael ei arddangos?

4: Ar wahân i wneud amlinelliad yr anifail, allwch chi awgrymu siâp sy’n arwyddocaol i ymddygiad yr anifail? Tynnwch lun y siâp mewn pensil fel drafft cyntaf.

5: Meddyliwch sut gallech chi gyflwyno eich geiriau *a’r* llun mewn un gwaith celf – defnyddiwch yr enghreifftiau fel ysbrydoliaeth. Rhowch gynnig arni eich hun!

**Gweithgaredd 2**

*Mae'r tri grid geirfa yma’n ymwneud ag anifail penodol, arbennig.*

Cyfarwyddiadau:

1: Dewiswch un grid. Chwiliwch am eiriau sy'n gwneud parau diddorol a'u hysgrifennu – gallwch dorri'r grid allan os ydych yn dymuno. Gallwch ychwanegu atynt ar unwaith gyda'ch geiriau eich hun – ceisiwch ymestyn y parau i linellau hirach.

2: Yn seiliedig ar y parau o eiriau, neu'r llinellau yma, allwch chi feddwl am siwrnai y gallai'r anifail fod wedi'i gwneud neu ddyfeisio naratif ar gyfer ei weithredoedd?

Mae’r pecyn adnoddau hwn wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

3: Ailosodwch eich gwaith ysgrifennu mewn trefn newydd – arbrofwch! Ysgrifennwch gerdd gyflawn fel drafft cyntaf.

4: Ar wahân i wneud amlinelliad yr anifail yn unig, allwch chi awgrymu siâp sy'n arwyddocaol i ymddygiad yr anifail neu i'ch cerdd? Tynnwch lun y siâp mewn pensil fel drafft cyntaf.

5: Meddyliwch sut gallech chi gyflwyno'r gerdd *a'r* llun mewn un gwaith celf – defnyddiwch yr enghreifftiau fel ysbrydoliaeth. Rhowch gynnig arni eich hun!

**Gweithgaredd 3**
*Creu eich banciau geiriau a'ch gwaith celf eich hun o'r dechrau*

Cyfarwyddiadau:

1: Lluniwch eich grid 4 x 4 eich hun yn eich llyfr, neu ddefnyddio'r un gwag isod.

2: Meddyliwch am anifail o'ch dewis – a fydd yn ysglyfaethus neu'n ysglyfaeth, yn ynysig neu ag un bach? Ydi'r anifail yn ddiogel neu mewn perygl?

3: Cwblhewch eich banc geiriau eich hun. Defnyddiwch enwau yn bennaf (e.e. pig, crafanc) ac ansoddeiriau (e.e. melyn, barus) ond efallai yr hoffech chi gynnwys ychydig o ferfau hefyd (e.e. mesur, ffrwydro).

4: Dilynwch gyfarwyddiadau 3 i 5 yng Ngweithgaredd 2!

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Mae'r pecyn adnoddau hwn wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of People's Postcode Lottery

Awarded funds from Postcode Planet Trust

Gweithgaredd 1: Banciau Geiriau (x 2)

| | | | |
|---|---|---|---|
| rhisgl | llwyd | cwmwl | gwyn |
| hen | mwgwd | anadl | awyr |
| coler | amser | llygaid | cnotiog |
| du | tennyn | meistr | poenus |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ffens | golau stryd | cysgod | gardd |
| gwlith | gwrid | llyfn | cerfiad |
| sffêr | gwenu | dannedd | cliwiau |
| lleuad | siâp | cyfrinachau | trosedd |

Mae'r pecyn adnoddau hwn wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY

Awarded funds from POSTCODE PLANET TRUST

Gweithgaredd 2: Banciau Geiriau (x 3)

| | | | |
|---|---|---|---|
| mochyn daear | asgwrn | masg | disgyblion |
| llygad | mynydd | cysgu | cloddio |
| gliter | gwenu | dannedd | trwm |
| teyrnas | tanddaearol | dylyfu gên | blinedig |

| | | | |
|---|---|---|---|
| tylluan | masg | cysgod | adenydd |
| siâp | llonyddwch | llyfn | sêr |
| crafangau | gwasgaredig | marwolaeth | coed |
| sgrechfeydd | claddedig | llygaid | pig |

Mae'r pecyn adnoddau hwn wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust


Supported by players of PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY

Awarded funds from POSTCODE PLANET TRUST

| | | | |
|---|---|---|---|
| **penhwyad** | **aur** | **arwyneb** | **cerrynt** |
| **chwyn** | **gwrid** | **dyfn** | **cerfio** |
| **düwch** | **dyfnder** | **dannedd** | **gwylio** |
| **tagellau** | **cyhyrog** | **breuddwyd** | **afon** |


Mae'r pecyn adnoddau hwn wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

**Enghreifftiau o gerddi am anifeiliaid**




Mae'r pecyn adnoddau hwn wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust
Supported by players of People's Postcode Lottery
Awarded funds from Postcode Planet Trust





Mae'r pecyn adnoddau hwn wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of People's Postcode Lottery

Awarded funds from Postcode Planet Trust





Mae'r pecyn adnoddau hwn wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of People's Postcode Lottery

Awarded funds from Postcode Planet Trust




Mae'r pecyn adnoddau hwn wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY

Awarded funds from POSTCODE PLANET TRUST




Mae'r pecyn adnoddau hwn wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY

Awarded funds from POSTCODE PLANET TRUST